COURSE JOINING INFORMATION

BA (ANRH) ADDYSG GYNNAR AC YMARFER PROFFESIYNOL GYDA SYBC (DWYIEITHOG)

YSGOL ADDYSG A PHOLISI CYMDEITHASOL CAERDYDD

Gwybodaeth Ymuno â Chwrs

Blwyddyn Academaidd 2021/2022

CardiffMet

CONTENTS

1. Croeso oddi wrth eich Tîm Addysgu

2. Amodau Cyn-cofrestru

3. Tasgau Haf Cyn-Mynediad

4. Ymrestru / Casglu Cerdyn Met Caerdydd

5. Wythnos Gynefino

6. Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Nodweddiadol

7. Newidiadau i'r Cwrs oherwydd COVID-19

8. Dolenni defnyddiol

9. Gwybodaeth am Leoliadau/Dysgu yn y Gwaith

1. Croeso oddi wrth eich Tîm Addysgu

Rydym yn falch iawn eich bod chi wedi dewis astudio’r rhaglen BA (Anrh) Addysg Blynyddoedd Cynnar (ABC) ac Ymarfer Proffesiynol (YP) gyda Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar (SYBC) yn yr Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Hoffai dîm y staff eich croesawu chi i'ch astudiaethau a'ch sicrhau ein bod ni yma i'ch cefnogi chi i wireddu eich amcanion. Mae'n debygol y byddwch chi’n dod ar draws llawer o gyfleoedd a rhai heriau ar hyd y ffordd. Gallwch fod yn sicr ein bod ni, fel staff, yma i'ch helpu chi gymaint â phosibl, o'ch diwrnod cyntaf fel Glasfyfyriwr i’ch Diwrnod Graddio a thu hwnt.

Mae'r adborth gan ein myfyrwyr blaenorol a phresennol yn dangos bod ein cyrsiau'n ysgogol ac wedi'u trefnu'n dda, ac yn cael eu cyflwyno gan diwtoriaid sydd â gwybodaeth dda o'r hyn maen nhw'n ei ddysgu ac sy'n dangos angerdd dros fod eisiau i'w myfyrwyr wneud yn dda - rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau mai dyna’r profiad a gewch chi hefyd.

Pwrpas eich wythnos gyntaf yw ymgyfarwyddo â'ch rhaglen, eich tiwtoriaid, y campws a'r ddinas, ac, wrth gwrs, i wneud ffrindiau newydd. Byddwch chi’n cwrdd â'r staff a fydd yn eich dysgu chi ac, yn bwysig iawn, byddwch chi hefyd yn cwrdd ag eraill yn eich grŵp blwyddyn. Byddwch chi hefyd yn dod i adnabod eich tiwtor personol, a fydd yn egluro'ch amserlen, yn gwirio bod popeth yn mynd yn dda ac yn datrys unrhyw broblemau a allai fod gennych.

Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi ac i’ch cefnogi chi i wireddu eich amcanion personol a gyrfa.

Cheryl, Sian, Angharad a Sandra

Tîm y Rhaglen BA (Anrh) Addysg Blynyddoedd Cynnar (ABC) ac Ymarfer Proffesiynol (YP) gyda Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar (SYBC)

Cwrdd â Thîm y Rhaglen Addysg Blynyddoedd Cynnar

Rydym yn dîm amrywiol o weithwyr proffesiynol sydd ag ystod o brofiadau gwahanol yn gweithio gyda phlant ifanc. Mae’r profiadau hynny’n cynnwys addysgu mewn lleoliadau ysgol yn ogystal â chefnogi plant a'u teuluoedd mewn lleoliadau eraill gan gynnwys hosbisau. Yr un peth sydd gennym i gyd yn gyffredin yw ein hangerdd dros roi'r cyfleoedd a'r profiadau gorau posibl i blant ifanc.

Cheryl Anthony - Cyfarwyddwr y Rhaglen

Fy enw i yw Cheryl Anthony a fi yw Cyfarwyddwr y Rhaglen (CRh) ar gyfer y rhaglen. Rydw i hefyd yn cyflwyno sawl modiwl gwahanol dros dair blynedd y rhaglen. Ym Mlwyddyn 1, rwy'n cyfrannu at y modiwl Dysgu Cynnar yn ogystal â bod yn Arweinydd Modiwl ar gyfer y modiwl Datblygiad Proffesiynol 1. Bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar agwedd lleoliadau'r rhaglen.

Sian Sarwar - Tiwtor Blwyddyn 1

Fy enw i yw Sian Sarwar a fi fydd eich tiwtor blwyddyn ym Mlwyddyn 1. Materion yn ymwneud â phrofiadau plant o fewn addysg yw fy niddordebau academaidd, yn enwedig o ran gwahanol ddulliau, y dylanwad hirdymor y gallant ei gael o fewn addysg a thu hwnt, yn ogystal â'u potensial i gefnogi a datblygu creadigrwydd plant. Rwy'n dysgu ar draws tair blynedd y rhaglen. Ym Mlwyddyn 1, byddaf yn eich dysgu am ran o'r modiwl Dysgu Cynnar wrth inni archwilio dulliau creadigol o gefnogi datblygiad iaith a mathemategol plant ifanc.

Angharad Williams - Tiwtor Blwyddyn 2

Shwmae, Angharad Williams ydw i ac rydw i wedi cael gyrfa hir ac amrywiol ym maes Addysg. Ar ôl hyfforddi fel athro ysgol Gynradd, bûm yn dysgu am 20 mlynedd i ddechrau mewn Addysg Gynradd ac yn ddiweddarach mewn Addysg Uwchradd. Ymunais â Met Caerdydd fel darlithydd ar gyfer TAR Cynradd ac ers hynny rydw i wedi dysgu ar Astudiaethau Plentyndod Cynnar (yn ddiweddarach gyda statws SYBC) gan ddysgu hefyd ar raglenni eraill fel Astudiaethau Addysg Gynradd a BA Cynradd SAC. Rwy'n siaradwr Cymraeg rhugl a fi yw'r tiwtor cyfrwng Cymraeg. Rydw i hefyd yn Diwtor Ysgol Goedwig lefel 3.

Sandra Dumitrescu - Tiwtor Blwyddyn 3

Shwmae, Sandra ydw i, ac er ei fod yn dweud 'Tiwtor Blwyddyn 3', byddwch chi’n fy ngweld i drwy gydol eich tair blynedd ym Met Caerdydd gan fy mod i’n arwain ac yn dysgu ar y 'Datblygu Plentyn 1 a 2' ym mlwyddyn 1 ac yna eich modiwl Datblygiad Proffesiynol ym mlwyddyn 2. Mae fy nghefndir ym maes gofal lliniarol plant (hosbis) ac felly rwy'n tueddu i ganolbwyntio ar iechyd a lles plant, ond mae gen i ddiddordeb ym mhob un o feysydd datblygiad a dysgu plant.

Bydd pobl eraill yn cyfrannu at y gwahanol fodiwlau y byddwch chi'n eu hastudio, a byddwch chi'n cwrdd â'r rhain trwy gydol y rhaglen.

2. Amodau Cyn-cofrestru

Cyn cofrestru ar y rhaglen, rhaid i bob myfyriwr fod wedi cwblhau'r broses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) Uwch:

GWIRIAD DBS

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn un o sefydliadau'r Llywodraeth sy'n helpu i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Bydd pob darpar fyfyriwr yn cael Datgeliad Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), cyn cofrestru ar y rhaglen. Pan ganfyddir problem, bydd canlyniadau'r datgeliad yn cael eu cyfeirio at banel i'w hystyried ac fe gynghorwyd y darpar fyfyriwr yn unol â hynny. Rhaid i fyfyrwyr sy'n gwneud cais am y rhaglen, lle nad yw Prydain yn hanu o'r wlad, ddarparu'r wybodaeth hon drwy ffynhonnell gyffelyb o'u mamwlad cyn iddynt gofrestru.

Gwasanaeth Diweddaru'r DBS

Argymhellir bod ymgeiswyr yn cofrestru gyda'r Gwasanaeth Diweddaru, felly gall y datgeliad fod yn gyfredol ar gyfer hyd astudiaethau a gall gwmpasu lleoliadau, os caiff ei gynnal. Mae'n bosibl hefyd na fydd rhai darparwyr lleoliadau yn derbyn eich tystysgrif gyfredol gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd drwy Brifysgol Metropolitan Caerdydd oni bai eich bod wedi cofrestru gyda'r Gwasanaeth Diweddaru.

Mae'r Gwasanaeth Diweddaru yn caniatáu i unigolion wneud cais i sicrhau bod eu gwiriad cofnodion troseddol yn cael ei ddiweddaru a bod cyflogwyr yn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn ddilys, os ydynt yn dewis gwneud hynny. Gall unigolion wneud cais am y Gwasanaeth Diweddaru ar yr un pryd â'r cais DBS, neu hyd at 30 diwrnod ar ôl cyhoeddi Tystysgrif y DBS.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y DBS a sut i gwblhau'r broses ar-lein drwy ddilyn y ddolen hon: www.cardiffmet.ac.uk/DBS

3. Tasgau Haf Cyn-Mynediad

Mae tair tasg yr hoffem ichi ymwneud â nhw a'u cwblhau dros yr haf er mwyn paratoi ar gyfer dechrau'r rhaglen. Gofynnir ichi rannu'r rhain yn ystod yr Wythnos Sefydlu a byddwch hefyd yn eu defnyddio yn ystod modiwlau amrywiol. Byddant yn sail i drafodaethau ac yn gyfle ichi fyfyrio ar eich profiadau, gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r cam pwysig hwn ym mywydau plant ifanc. Gallwch fod yn dawel eich meddwl nad oes ffordd gywir nac anghywir o wneud hyn - eich dewis chi i raddau helaeth yw sut rydych chi'n cyflwyno'r wybodaeth.

Tasg 1 - Llenyddiaeth Plant
Mae llyfrau a darllen yn rhan bwysig o fywydau plant ifanc. Hoffem ichi ddod o hyd i lyfr stori y gwnaethoch chi ei fwynhau'n arbennig fel plentyn ifanc, neu un rydych chi'n credu efallai y byddai plentyn ifanc yn ei fwynhau, a chwblhau adolygiad llyfr. Yn ddelfrydol, byddai angen i'r llyfr fod yn addas i'r grŵp oedran 0 - 8 a gallai fod yn llyfr stori neu'n llyfr lluniau. Fel rhan o'ch adolygiad byddai angen ichi gynnwys y teitl, yr awdur, y cyhoeddwr, trosolwg o'r stori neu'r cynnwys a'r hyn yr oeddech chi'n ei hoffi / ei fwynhau am y llyfr penodol hwnnw. Gallwch gwblhau adolygiad ysgrifenedig o'r llyfr neu ddewis rhannu eich barn ar ffurf ddarluniadol neu sain - beth bynnag sy'n gweithio orau i chi. Yna byddwn ni'n defnyddio'r rhain fel rhan o Sesiwn Rhannu Stori yn ystod y rhaglen.

Tasg 2 – Hwiangerddi a Chaneuon
Mae plant ifanc wrth eu bodd yn canu hwiangerddi a chaneuon ac mae llawer o'r rhain yn aros gyda ni trwy gydol ein plentyndod ac wrth inni dyfu'n oedolion. Hoffem ichi ddewis eich hoff hwiangerdd neu gân o'ch plentyndod cynnar a chreu cynrychiolaeth weledol y gellir ei rhannu ag eraill. Gallwch wneud hyn mewn unrhyw fformat o'ch dewis ond bydd angen ichi gynnwys geiriau'r hwiangerdd neu'r gân ac unrhyw symudiadau os yn briodol. Byddwn ni'n rhannu'r rhain yn ein sesiwn Cydganu yn ystod y rhaglen.

Tasg 3 - Llyfr Lloffion ABC y Blynyddoedd Cynnar
Crëwch lyfr lloffion wedi'i drefnu'n ôl yr wyddor (copi papur neu electronig), gan gofnodi eich profiadau, atgofion a'ch gwybodaeth am sector addysg y Blynyddoedd Cynnar. Gallwch ddefnyddio unrhyw gyfryngau yr ydych yn hoff ohonynt, gan gynnwys ffotograffau, darluniau, adroddiadau cyfryngau, geiriau ysgrifenedig (mewn unrhyw fformat, megis myfyrdodau, disgrifiadau, cerddi, penawdau ac ati) i gyflwyno'r hyn a wyddoch, yr ydych wedi clywed amdano neu wedi'i brofi mewn perthynas ag Addysg Blynyddoedd Cynnar.

Er enghraifft, gallai 'Th' fod yn Theori Ymlyniad - gydag ychydig frawddegau neu baragraff byr i egluro beth ydyw. Gallech gynnwys cyfeiriad at lenyddiaeth hefyd - rhywbeth y byddem yn ei ddisgwyl yn eich aseiniadau.
Gallai 'Y' fod ar gyfer ymddygiad a ffyrdd i'w hyrwyddo, neu 'B' ar gyfer beic a sut mae'n bwysig ar gyfer datblygiad corfforol.
Gallai 'C' fod ar gyfer creadigrwydd a pham mae hyn yn bwysig pan fyddwn ni'n gweithio gyda phlant ifanc.

Nid oes cyfyngiad ar nifer yr eitemau y gallwch eu cynnwys ar gyfer pob llythyren o'r wyddor, ond bydd angen ichi gael rhywbeth ar gyfer pob llythyren. Lle bynnag y bo modd, ceisiwch gynnwys rheswm neu fyfyrdod ar gyfer pob eitem yr ydych chi'n ei chynnwys.

Nid oes unrhyw offer arbennig i'w brynu ar gyfer y rhaglen hon. Fodd bynnag, byddwch chi'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn ardal ysgol y goedwig waeth beth fo'r tywydd. Bydd gweithgareddau o'r fath yn digwydd yn ystod yr Wythnos Sefydlu a thrwy gydol y rhaglen. Fe'ch

cynghorir felly i gael siaced a throwsus glaw a phâr o welingtons neu esgidiau glaw. Bydd yr eitemau hyn hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer lleoliadau oherwydd gofynnir ichi hebrwng plant yn yr awyr agored.

Llyfrau

Nid oes unrhyw destunau cwrs gorfodol ar gyfer y rhaglen, fodd bynnag, mae gan bob modiwl restr ddarllen ofynnol ac argymelledig. Mae'r holl destunau hyn ar gael trwy'r llyfrgell, y mwyafrif ohonynt fel e-lyfrau. **Nid oes unrhyw ofyniad ichi brynu unrhyw un o'r testunau hyn** (er mae'n well gan rai myfyrwyr fod yn berchen ar eu copïau eu hunain). Gallwch ddod o hyd i fanylion y rhestr ddarllen ofynnol ac argymelledig ar gyfer rhaglenni penodol ar eich Moodle cyn cyrraedd.

4. Ymrestru / Casglu Cerdyn Met Caerdydd

Mae ymrestru yn broses bwysig a fydd yn cadarnhau eich statws yn Fyfyriwr. Gallwch gwblhau'r broses hunan-ymrestru ar-lein oddi ar unrhyw gyfrifiadur drwy ein system Hunan Wasanaeth. Noder: er mwyn hunan-ymrestru, rhaid i'ch statws fod yn UF (Pendant Di-amod).

Fe gewch ebost yn rhoi gwybod i chi pan fyddwch yn cael ymrestru ar-lein. Fe fydd yr ebost yn eich cyfeirio i gyfleuster ail-osod cyfrinair er mwyn gofyn am gyfrinair i gael mewngofnodi a chwblhau'r broses ymrestru. I gael gwybodaeth ac arweiniad ynglŷn â'r broses hon, gwnewch yn siŵr eich bod yn ymweld â'n tudalen ymrestru – www.cardiffmet.ac.uk/enrolment.

Mae'r broses hon yn hanfodol gan y bydd yn eich galluogi i gael mynediad i'ch benthyciad myfyrwyr (os gwneir cais amdano), talu ffioedd, systemau TG Met Caerdydd ac, yn bwysig, bydd yn eich galluogi i gael eich Met Gerdyn Myfyrwyr.

Fe fyddwch hefyd yn derbyn Llawlyfr eich Rhaglen yn ystod yr Wythnos Gynefino. Mae Llawlyfr y Rhaglen yn llyfr hanfodol drwy'r Rhaglen a dylid ei gadw i'w ddefnyddio ar hyd eich cwrs astudio. Bob blwyddyn academaidd, caiff gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â'r lefel yna ei darparu. Bydd y Llawlyfr yn cynnig canllawiau ar Reolau, Rheoliadau a Gweithdrefnau, a chanllawiau ar ddysgu ar gyfer ymarfer gyda gwybodaeth ar bob modiwl i'w astudio a'r rhestri darllen.

Ymrestru ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol
Os ydych yn fyfyriwr rhyngwladol bydd gofyn i chi gyflwyno rhywfaint o ddogfennaeth cyn cael caniatâd i gael ymrestru ar-lein. I gael rhagor o wybodaeth am ymrestru myfyrwyr rhyngwladol a rhestr o ddogfennau y bydd rhaid i chi eu cyflwyno, ewch i: tudalennau myfyrwyr rhyngwladol neu cysylltwch â'r Tîm Cydymffurfiad Mewnfudo yma: immigrationregs@cardiffmet.ac.uk.

Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth
Bydd mynediad gennych i Wasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Met Caerdydd yn fuan wedi i chi gwblhau eich ymrestru ar-lein. Caiff ebost ei anfon atoch i gadarnhau hyn ynghyd â manylion mewngofnodi Met Caerdydd. I gael gweld y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael, ewch i www.cardiffmet.ac.uk/library.

Eich Met Gerdyn Myfyrwyr
Mae eich Met Gerdyn yn rhoi mynediad i chi i bob prif adeilad a drws ar y campws. Yn ychwanegol gallwch ychwanegu arian i'ch Met Gerdyn fel y gallwch fod â mynediad i'r argraffyddion hunan-wasanaeth, y copïwr a gwasanaethau'r Stiwdio Print, ac yn gallu talu am y rhain. I gael rhagor o fanteision y Met Gerdyn, cliciwch yma.

Ffioedd
Mae'r ffioedd dysgu ar gyfer graddau israddedig amser llawn a rhaglenni Meistr amser llawn ar gyfer dechrau ym Medi 2021 wedi'u gosod ar £9,000 y flwyddyn. I gael rhagor o wybodaeth ar ffioedd dysgu, edrychwch ar ein Tablau Ffioedd. Os bydd unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth eich rhaglen, byddan nhw wedi'u rhestru ar www.cardiffmet.ac.uk/additionalcosts. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r rhain er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'ch cwrs.

Mae manylion am ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol ar gael yma. Dylech fod yn ymwybodol o'r costau hyn eisoes.

5. Wythnos Gynefino

Bydd y cyfnod cynefino ar gyfer pob myfyriwr yn Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd yn dechrau ar Ddydd Llun, Medi 28ain 2021. Fe fydd eich tymor cyntaf yn fyfyriwr newydd yn dechrau gydag Wythnos Gynefino lle y byddwch yn ymgartrefu yn eich llety, yn ymgyfarwyddo â'ch cwrs a'ch bywyd myfyriwr. Mae amserlen eich Wythnos Gynefino yn dangos y digwyddiadau sydd wedi'u dylunio i chi gael ymgyfarwyddo â Met Caerdydd, ei gyfleusterau a'ch cyd-fyfyrwyr. Fe gewch y cyfle i fynd i amrywiaeth o ddigwyddiadau a fydd yn ymwneud â'ch rhaglen, gwasanaethau'r llyfrgell, TG, gwasanaethau myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr. Byddwch yn cyfarfod hefyd ac yn cael nifer o sesiynau gyda'ch tiwtor personol i gael gwneud y broses o drosglwyddo i fywyd academaidd y brifysgol yn un mor ddidrafferth â phosib.

Yn unol â'r wybodaeth isod am gyflawni'r rhaglen, bydd yr Wythnos Gynefino yn cynnwys gweithgareddau a fydd yn cael eu cyflawni ar amser pendant ac wedi'u harwain gan aelod o'r staff, a gweithgareddau a fydd wedi'u dylunio a'u gosod gan aelod o'r staff ond a fydd i'w cwblhau yn eich amser chi eich hunan. Bydd y gweithgareddau hyn yn digwydd ar-lein/amgylchedd rhithiol yn bennaf ar hyd yr wythnos gynefino; rydym hefyd yn cynllunio gweithgareddau i redeg ar-gampws lle y bydd cyfyngiadau'r llywodraeth yn caniatáu.

Mae eich digwyddiadau a'ch amserlen derfynol yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd a chân nhw eu llwytho yn ddogfennau ar wahân ar dudalennau'r Myfyrwyr Newydd i chi.

Ar gyfer y rheiny mewn Neuaddau Preswyl, peidiwch ag anghofio i wirio'r rhaglen a gynigir drwy'r Tîm Bywyd Preswyl.

6. Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Nodweddiadol

Mae eich gradd yn cynnwys modiwlau ar wahân, pob un yn ymdrin â phwnc gwahanol gyda'i ddull ei hun o ran cyflwyno ac asesu. Nodir ffocws penodol pob modiwl ar eich cyfer yn llawlyfr y modiwl, sydd i'w weld ar Moodle. Mae'r rhan fwyaf o fodiwlau'n 20 credyd, ac eithrio'r modiwl Datblygiad Proffesiynol sy'n 60 credyd. Mae hyn yn cynnwys cyfuniad o sesiynau ffurfiol ar yr amserlen ac astudio annibynnol. Mae mynychu pob sesiwn a addysgir yn orfodol.

Cofiwch eich bod chi'n ymuno â chymuned ddysgu lle byddwch chi'n dysgu oddi wrth eich gilydd ac yn cefnogi'ch gilydd yn eich datblygiad academaidd a sgiliau. Mae'n hanfodol eich bod chi'n ymddwyn mewn modd proffesiynol ac yn ymgymryd â'ch astudiaethau mewn ffyrdd sy'n hwyluso nid yn unig eich cynnydd eich hun, ond cynnydd eraill hefyd. Os ydych chi'n cael anhawster rheoli eich amser a'ch llwyth gwaith yn effeithiol, trafodwch hyn gyda'ch Tiwtor Personol.

Cynhelir sesiynau'r amserlen rhwng 9am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Sylwer mai amser y dylech ei fuddsoddi mewn ymchwil ac astudio personol yw'r 'gwagle' rhwng y sesiynau ar yr amserlen.

D.S.: Gall amserlenni newid, hyd at a chan gynnwys dechrau'r tymor.

Fel myfyriwr blwyddyn gyntaf, bydd gennych fynediad at eich amserlen wedi'i chadarnhau o'r Wythnos Sefydlu, sydd cyn wythnos gyntaf y dysgu. Sylwer y bydd angen ichi gofrestru cyn y gallwch gyrchu'r wybodaeth hon. Os cafodd eich lle ei gadarnhau ond na chawsoch eich hysbysu y gallwch gofrestru, cysylltwch â Derbyniadau a fydd yn medru eich cynghori.

Fel rhan o'r modiwl Dysgu Cynnar, *gobeithi*wn g*ynnig cyfle ichi ennill cymhwyster achrededig Lefel Dau'r Ysgol Goedwig. Byddwn* ni'*n* trafod y *cynnwys sy'n ofynnol ar gyfer yr achrediad hwn yn y modiwl ac felly ni fydd unrhyw dâl am ymgymryd â'r hyfforddiant. Fodd bynnag, bydd* gofyn ichi dalu ffi weinyddol i'r corff achredu, Agored Cymru, *am brosesu'ch cymhwyster ar ôl ei gwblhau'n llwyddiannus. Mae'r ffi oddeutu £25 ond gall newid.*

Mae cyfle hefyd i ymgymryd â chymwysterau ychwanegol a allai fod â chost e.e. cymhwyster Diogelu'r NSPCC fel dewis ychwanegol yn ystod eich gradd. Ar hyn o bryd mae'r cymhwyster hwn yn codi tâl o oddeutu £20 ond gall newid.

Ar ôl cwblhau eich gradd yn llwyddiannus, dyfernir Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar ichi, wedi'i achredu gan Gofal Cymdeithasol Cymru. I ennill y cymhwyster hwn, bydd gofyn ichi wneud 700 awr o brofiad gwaith yn ystod eich gradd. Mae'n debygol y bydd rhai costau teithio yn gysylltiedig â lleoliadau. Gweler www.metcaerdydd.ac.uk/additionalcosts *er gwybodaeth. Efallai y bydd gofyn ichi hefyd brynu ffeil lleoliad addas, caiff manylion pellach ynglŷn â hyn eu rhannu gyda chi yn ystod yr Wythnos Sefydlu. Er mwyn ychwanegu at yr amser ar leoliad efallai y bydd ymweliadau ychwanegol â gwahanol leoliadau / canolfannau addysg yn yr ardal leol a'r cyffiniau. Efallai y bydd costau teithio ychwanegol ynghlwm â'r rhain.*

7. Newidiadau i'r Cwrs oherwydd COVID-19

Mae modd gweld unrhyw ddiweddariadau i'ch cwrs yn dilyn effeithiau COVID-19 ar y tudalen canlynol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r tudalen yma yn rheolaidd i gael unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau pellach, cyn dechrau eich cwrs.

https://www.cardiffmet.ac.uk/study/newstudents/Pages/Programme-Updates.aspx

Mae'n debyg y bydd peth o'r cyfnod cynefino yn digwydd ar-lein, weithiau drwy ddefnyddio *Microsoft Teams*. Rydym yn argymell eich bod yn llwytho'r ap i lawr i'ch ffôn neu'n ymweld â'r wefan mewn porwr er mwyn ymgyfarwyddo â sut i ddefnyddio'r system hon.

Os nad ydych yn gallu cael mynediad gartref i'r math yma o system, neu byddai'n anodd i chi wneud hynny yn rhyw ffordd, rhowch wybod i ni.

https://www.microsoft.com/en-gb/microsoft-365/microsoft-teams/group-chat-software

8. Dolenni defnyddiol

Amserlen
Bydd y ddolen hon yn rhoi mynediad i chi i'ch amserlen derfynol. Bydd rhaid i chi fod wedi ymrestru cyn y gallwch ddefnyddio'r ddolen yma, ac fe gysylltir â chi pan fydd y wybodaeth ar gael.

Ymgysylltiad Byd-Eang
Cyngor a chymorth ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol o'r tu allan i'r UE ar wneud cais am fisa, byw yn y DU, gwneud trefniadau llety a manteisio ar Wasanaeth Croesawu yn y Maes Awyr. Bydd Ymgysylltiad Byd-eang yn rhoi cymorth lles a chyngor dysgu ar hyd eich cwrs. Edrychwch hefyd ar ein cwestiynau a ofynnir yn aml: https://www.cardiffmet.ac.uk/international/study/Pages/default.aspx

DBS
Os yw'ch rhaglen yn golygu eich bod chi'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc, neu rhai sy'n fregus, yna gofynnir i chi gynnal gwiriad cofnodion troseddol fel rhan o'ch cynnig.

Costau Cwrs Ychwanegol
Costau ychwanegol yw'r treuliau gorfodol neu opsiynol, ar ben y ffioedd dysgu, y bydd angen eu talu gan fyfyrwyr iddyn nhw gael cymryd rhan lawn a chwblhau eu hastudiaethau. Bydd hyn yn cynnwys pethau megis offer, teithiau, lleoliadau a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae costau ychwanegol gwahanol gan bob rhaglen.

Llety
Bydd contractau preswyl myfyrwyr yn dechrau ar Fedi 20ed 2021. Ond oherwydd cadw pellter cymdeithasol ac i sicrhau eich iechyd a'ch diogelwch chi a'n staff, fe fydd amseroedd cyrraedd y neuaddau preswyl yn ymestyn dros sawl diwrnod yr wythnos cyn hynny. Wedi i chi gael lle wedi'i gynnig i chi ac y byddwch wedi'i dderbyn, cadwch olwg am ebost a fydd yn rhoi gwybod i chi pryd y cewch symud i mewn. A wnewch chi nodi na fyddwch yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd yn y neuaddau heb i chi gwblhau'r broses ymrestru yn llwyddiannus. Cynhelir amrywiaeth o ddigwyddiadau drwy'r cyfnod cynefino a thrwy'r tymor cyntaf; bydd Llety yn anfon gwybodaeth atoch pan fydd y rhain wedi'u cadarnhau.

Gwasanaethau Myfyrwyr
I gael help yn ystod eich cyfnod gyda ni o ran eich iechyd, eich lles, eich dull byw a'ch gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth fydd ei angen arnoch i sicrhau bod eich astudiaethau mor bleserus a mor llwyddiannus â phosib. Ymhlith y gwasanaethau eraill mae cwnsela, anabledd a'r gaplaniaeth.

Cyllid Myfyrwyr
I gael gwybodaeth ar Fenthyciadau Ffioedd Dysgu a Benthyciadau Cynhaliaeth, ac unrhyw fwrsarïau, ysgoloriaethau a grantiau nad oes rhaid eu had-dalu, a allai fod ar gael.

Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd

Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd *gan gynnwys Cymdeithasau UM, Clybiau Chwaraeon UM a'r gallu i gael mynediad i gyngor a chymorth annibynnol*

Dyddiadau'r Tymhorau

Mapiau'r Campws, Cysgodfeydd Beiciau a'r MetWibiwr

Mae Met Caerdydd yn cynnig ei wasanaeth bysiau ei hun – y MetWibiwr. I gael rhagor o wybodaeth ac i gyrchu'r ffurflen gais, ewch i www.cardiffmet.ac.uk/MetRider. Mae cysgodfeydd storio beiciau gennym hefyd ar y ddau gampws, ac mae modd newid a chael cawod hefyd. Mae'r cysgodfeydd yn rhai diogel ac nid oes mynediad iddyn nhw ond drwy ddefnyddio'ch Met Gerdyn pan fyddwch wedi gofyn am ganiatâd drwy'r parth-g.

Teithiau Tywys Rhithiol
Edrychwch o gwmpas ein campws a'n cyfleusterau unwaith eto gyda'n teithiau tywys rhithiol.

Llawlyfr y Myfyrwyr

Llawlyfr Academaidd

Polisi Derbyn Myfyrwyr

Cwestiynau a ofynnir yn aml

Cwynion

9. Gwybodaeth am Leoliadau/Dysgu yn y Gwaith

Ymgorfforir lleoliadau ym mhob blwyddyn o'r rhaglen er mwyn eich galluogi chi i gwblhau cyfanswm o 700 awr dros y tair blynedd o astudio. Bydd hyn yn eich caniatáu chi i gyflawni Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar (SYBC). Trefnir lleoliadau ar eich cyfer chi yn un o'n safleoedd partner. Mae gennym dros 300 o safleoedd yn ein partneriaeth, ac mae'r rhain yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr, yn bennaf o fewn de ddwyrain Cymru. Felly bydd disgwyl ichi deithio i'r fath safleoedd drwy gydol eich lleoliad. Byddwn yn gwneud ein gorau i'ch anfon chi i dri lleoliad gwahanol er mwyn eich darparu ag ystod mor eang â phosibl o brofiad. Bydd hyn yn profi'n fuddiol ichi o ran eich cyflogadwyedd yn y dyfodol. Trefnir lleoliadau mewn blociau o amser ac maen nhw'n digwydd trwy gydol y flwyddyn academaidd. Cewch ddigon o gefnogaeth tra byddwch chi ar leoliad a bydd gennych fentor yn y safle a neilltuwyd ichi yn ogystal â Thiwtor Prifysgol. Bydd y ddau'n darparu cyngor ac arweiniad er mwyn eich helpu chi i ddatblygu'n ymarferydd Blynyddoedd Cynnar hyderus a chymwys.

Rhennir rhagor o fanylion am y disgwyliadau ar gyfer lleoliadau â chi yn ystod y modiwl Datblygiad Proffesiynol 1.